# 8 Rhagfyr

## Cipolwg ar y diwrnod

**Bore:**

**9.30am – Y gwesteion i gyrraedd**

**10.15am – Anerchiad Croeso - Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog**

**10.35am – Trafodaeth Panel** gyda Manon Rees O'Brien (Actif North Wales), Alastair Dixon (Canŵio Cymru), Claire Lane (Streetgames), Owen Lewis (Chwaraeon Cymru), Jac Chapman (Llysgennad Ifanc).

Bydd y sesiwn yma'n gyfle i feddwl pwy allai fod yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion y cyhoedd, pwy allai fod yn y sefyllfa orau i gyflawni'r angen hwnnw, a phwy allai fod yn y sefyllfa orau i hwyluso'r ddarpariaeth. Bydd y panel yn edrych ar y cwestiwn ynghylch y meddylfryd a'r syniadau presennol o ran mai unrhyw un partner sydd yn y sefyllfa orau i wneud yr holl bethau hynny. Bydd y sesiwn yma'n ystyried sut gallai'r sector gydweithio'n well â gwahanol sefydliadau sy'n chwarae'r rôl y maent yn y sefyllfa orau i'w chwarae, a sut gallai canolbwyntio ar wneud llai o bethau'n well, er mwyn gweithio ar y cyd i gyfrannu at system chwaraeon gynhwysol.

12.05pm - Gweithdai – Gwahoddir y gwesteion i un o dri gweithdy neu gyfle rhwydweithio

**Cinio:** 12.40-1.30pm

**Prynhawn:**

**1.40pm – Prif Anerchiad – Per Tøiern, Chwaraeon Norwy**

Bydd y prif anerchiad yma'n rhoi cyfle i ddeall sut mae chwaraeon yn Norwy wedi datblygu a sut mae pawb sy'n cymryd rhan yn cyfrannu at y Weledigaeth o Lawenydd mewn Chwaraeon i Bawb.

**2.50pm – 2il weithdy** Gwahoddir y gwesteion i un o dri gweithdy neu gyfle rhwydweithio

**3.35pm – 3ydd gweithdy** Gwahoddir y gwesteion i un o dri gweithdy neu gyfle rhwydweithio

**4.15 – Sylwadau i gloi – Cadeirydd Chwaraeon Cymru, Y Farwnes Tanni Grey-Thompson**

Dyma’r gweithdai:

1) **Pwy sydd yn y sefyllfa orau i sbarduno newid?**

Lisa O’Keefe, Ysgrifennydd Cyffredinol IWG ar gyfer Merched mewn Chwaraeon

Bydd y gweithdy yma’n cynnwys cyflwyniad byr a sesiwn holi ac ateb o’r llawr gydag Ysgrifennydd Cyffredinol newydd y Gweithgor Rhyngwladol (IWG) ar gyfer Merched mewn Chwaraeon. Bydd y sesiwn yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer cyfnod cynnal o 4 blynedd y grŵp yn y DU fel catalydd ar gyfer trafodaeth sy'n edrych ar bwy sydd yn y sefyllfa orau i ysgogi newid yn erbyn y blaenoriaethau ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Beth yw rôl sefydliadau ac unigolion yn y system a ble gallant gael yr effaith fwyaf? Sut gall sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol arwain yr achos dros newid.

2) **Pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddeall angen?**

Jo Goodwin, Pennaeth Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr - CDPS
Justin Coleman, Lefelu'r Cae Chwarae

Nod y gweithdy hwn yw helpu’r gwesteion i edrych ar sut i greu System Chwaraeon Gynhwysol drwy ddeall anghenion pobl. Pa mor dda ydyn ni am ddeall angen? Beth sydd angen i ni ei wneud i ymgysylltu'n dda? Sut ydyn ni’n deall angen pobl ac yn ymateb iddo? Yn bwysicaf oll, pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddeall angen? Bydd y gweithdy yma’n rhannu enghreifftiau o astudiaethau achos er mwyn helpu i roi ffocws i ateb rhai o’r cwestiynau hyn a rhannu enghreifftiau o ble mae rhai sefydliadau yn rhoi’r defnyddiwr wrth galon eu dull o weithredu.

3) **Pwy sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni yn erbyn angen, ar ôl ei ddeall?**

Chris Davies, Parkrun
Andy Newman, Dragon Athletic
Gary Lewis, Yr Urdd

Ei nod yw helpu’r gwesteion i edrych ar sut i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd o fewn System Chwaraeon Gynhwysol, drwy ddeall faint o gymryd rhan mewn chwaraeon sydd yn yr hinsawdd bresennol.

Sut mae cynigion amgen o fewn chwaraeon wedi gallu ateb y galw, a darparu ar gyfer anghenion heb eu diwallu, neu eu haddasu yn seiliedig ar ddeall anghenion pobl? Bydd y drafodaeth bord gron hon yn edrych ar sut gall dulliau amgen o ymgysylltu â chyfranogwyr feithrin partneriaethau pwysig. Bydd y pynciau i’w trafod yn cynnwys edrych ar gyfleoedd aelodaeth, tueddiadau defnyddwyr, darparwyr chwaraeon newydd a sut maent yn mynd ati i ddefnyddio gwybodaeth a sganio’r gorwel i ddiwallu anghenion pobl a chreu cynigion cyffrous y mae galw amdanynt.